

Jane Hutt AC / AM  
Y Gweinidog Cyllid  
Minister for Finance



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: SF/JH/2645/14

Jocelyn Davies AC,  
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid,  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru,  
Bae Caerdydd,  
Caerdydd  
CF99 1NA

9 Medi 2014

### Adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Ymchwiliad i Arferion Gorau o ran y Gyllideb

Diolch am eich adroddiad ar ran gyntaf ymchwiliad y Pwyllgor i arferion gorau o ran y gyllideb. Mae'r ymchwiliad hwn yn cynnig mewnbwn gwerthfawr i'r broses o ddiwygio cyllidebol i sicrhau bod gan Gymru weithdrefn gyllidebol sy'n addas i'r diben wedi i'w chyfrifoldebau newydd gael eu rhoi ar waith ym Mil Cymru.

Roeddwn i'n falch o nodi'ch bod yn canolbwyntio ar gydweithredu er mwyn llunio gweithdrefnau cyllidol newydd sy'n holistaidd, yn cyd-fynd ag arfer gorau ac yn dderbyniol i Lywodraeth Cymru, yn ogystal ag i'r Cynulliad yn ei gyfanrwydd. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo ers amser hir i wella'r ffordd rydym yn ymdrin â chyllidebau ac yn cyflwyno gwybodaeth gyllidebol. Rydym wedi gwneud peth cynnydd arwyddocaol drwy gydweithredu'n agos â'r Pwyllgor Cyllid. Fodd bynnag, mae'r ddeddfwriaeth newydd yn rhoi cyfleoedd newydd i ni, ynghyd â'r posibilrwydd o ystyriaeth fwy sylfaenol, ac rwy'n croesawu hynny.

Un o'r themâu sy'n codi droeon yn yr adroddiad yw'r angen i ddeall effaith ein gwariant – ac rwy'n cefnogi'r amcan hwn. Mae'ch adroddiad yn dechrau amlinellu'r heriau o ran cyflawni hynny, oherwydd cymhlethdod Llywodraeth Cymru ac oherwydd natur hirdymor yr heriau polisi rydym yn eu hwynebu. Y Rhaglen Lywodraethu yw cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer tymor y Cynulliad hwn ac roedd yn gam pwysig o ran newid ein ffordd o fesur ein cynnydd o ran canlyniadau. Dros y tair blynedd diwethaf, rydym wedi cymryd nifer o gamau i adeiladu proses y Gyllideb o amgylch y Rhaglen Lywodraethu. Mae heriau ynghlwm â hyn yn yr un modd ag sydd ynghlwm â meithrin dealltwriaeth o'r cysylltiad rhwng dyraniadau ac amcanion gwariant. Mae gennym amcan cyffredin o ran meithrin y ddealltwriaeth hon ac rwy'n falch bod yr adroddiad yn cydnabod yr heriau sy'n gysylltiedig â gwneud hynny. Yn y cyd-destun hwn, rwy'n awyddus i ddefnyddio'r profiad o'r ffordd rydym wedi defnyddio proses y gyllideb i ymateb i'r Rhaglen Lywodraethu i lywio datblygiadau yn y dyfodol, ac mae gennyf waith ar y gweill i wneud hyn.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)  
recycled paper*

English Enquiry Line 0845 010 3300  
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400  
Gohebiaeth.Jane.Hutt@cymru.gsi.gov.uk  
*Printed on 100%*

Hefyd, ceir cyfleoedd i lunio'r agenda hon yn sgil Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r gwelliannau rheoli perfformiad craffu y mae'r Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus yn galw amdanynt. Ynghyd â'r Rhaglen Lywodraethu, bydd y datblygiadau hyn yn gosod y fframwaith er mwyn i ni ddatblygu cynllunio ac adrodd. Bydd nifer o faterion ymarferol i'w datrys wrth i ni barhau ar hyd y llwybr hwn. Bydd materion i Lywodraeth Cymru eu datrys ynghylch sut gallwn alinio dyraniadau'r gyllideb â'r canlyniadau rydym yn ceisio'u cyflawni.

Mater sydd wedi codi droeon dros y blynyddoedd diwethaf yw sut gallwn adlewyrchu'n agored ac yn gywir ein cynlluniau ar gyfer gwario £15 biliwn ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru – bydd maint y gyllideb, ystod y gwahanol wasanaethau rydym yn eu cefnogi ac amrywiaeth y sefydliadu partner yn parhau i fod yn her i ni, ac mae'n annhebygol y bydd ateb hawdd ynghylch y lefel rydym yn cyllidebu ac yn darparu gwybodaeth arni. Hefyd bydd materion i ni eu datrys gyda'r Pwyllgor o ran sut gallwn gydbwysu gofynion y broses graffu gyda'r angen i roi sicrwydd cynnar i'n partneriaid darparu a'r angen i roi hyblygrwydd i'r Llywodraeth ymateb i newid mewn amgylchiadau. Mae'n annhebygol y bydd atebion hawdd i'r materion hyn, ond mae Bil Cymru yn rhoi'r cyfle i ni ystyried materion newydd ac ystyried yn sylfaenol y gweithdrefnau cyllidebol gorau ar gyfer ein hamcanion. Rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda'r Pwyllgor ar y materion hyn i lunio'r ymateb mwyaf effeithiol a chymesur posibl.

Yn amlwg, bydd datganoli trethi yn cynnig dimensiwn newydd i'n gwaith cynllunio a modelu a bydd yn gofyn ein bod yn datblygu prosesau rhagolygon a modelu newydd. Wedi dweud hynny, o ystyried y bydd y mwyafrif o'n cyllid yn dod gan Lywodraeth y DU o hyd, byddwn yn parhau i weithio o fewn cyfyngiadau ei phrosesau a'i hamserlenni. Mae angen i ni ystyried yr hyn y mae hyn yn ei olygu i'n prosesau at y dyfodol. Er enghraifft, un mater penodol dros y blynyddoedd diwethaf yw amseru Datganiad yr Hydref mewn perthynas â'r Cynnig ynghylch y Gyllideb Derfynol, sy'n golygu bod ein cynlluniau ar gyfer y Gyllideb ar ei hôl hi cyn i'r Cynulliad gytuno arnynt. Bydd y materion amseru hyn, ynghyd â blynyddoldeb grant bloc Cymru, yn parhau i fod yn gyfyngiadau.

Dylid amseru newidiadau trethu i gyd-fynd â'r broses gyllidebol er mwyn i'r Cynulliad weld newidiadau o'r fath yng nghyd-destun y sefyllfa gyllidol ehangach. Mae angen i ni ystyried a yw cymeradwyaeth ffurfiol ar gyfer newidiadau treth a chynlluniau gwariant yn fwy priodol mewn un darn o ddeddfwriaeth neu wahanol ddarnau o ddeddfwriaeth. Hefyd, fel y mae'r Pwyllgor yn ei nodi, mae angen edrych ymlaen at ystyried ymarferoldeb a goblygiadau hyn yn ail ran yr ymchwiliad.


Rwy'n gryf o'r farn bod craffu trylwyr ar gynlluniau benthyg ac ymrwymadau hirdymor Llywodraeth Cymru yn elfen hanfodol o'r broses gyllidebol. Mae Bil Cymru a'r Papur Gorchymyn cysylltiedig yn gosod y rheolaethau lefel uchel y bydd Trysorlys ei Mawrhydi yn eu gweithredu o fewn fframwaith cyllidol y DU. Dylai lefel gyfansymiol, diben ac ad-daliadau unrhyw fenthyg hirdymor ar gyfer buddsoddiad cyfalaf fod yn rhan o gynlluniau gwariant Llywodraeth Cymru, a bydd angen i ni ystyried manylder yr wybodaeth sy'n briodol i sicrhau craffu effeithiol ar gyllideb Llywodraeth Cymru, a'i thryloywder. Bydd hyn yn cynnwys amseru gwybodaeth ynghylch ymrwymadau ariannol hirdymor sydd i'w cyflawni o hyd y tu allan i gyhoeddi'r cyfrifon blynyddol.

O'i gymharu, mae'n debygol y bydd benthyg tymor byr i reoli amrywioldeb refeniw trethi yn ôl-weithredol ac yn rhywbeth na fydd yn cael ei gynllunio. Dylai fod gan y Cynulliad oruchwyliaeth ar y trefniant hwn. Wrth i ni gael eglurder ynghylch sut bydd y trefniant hwn yn gweithredu, bydd angen i ni ystyried y ffordd fwyaf priodol o gael goruchwyliaeth o'r fath yn y broses gyllidebol newydd.

Mewn egwyddor, rwy'n cefnogi argymhelliad y Pwyllgor ar gyfer cynnal 'ymarfer alinio' i sicrhau bod cyfrifon Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r un ffin ar gyfer y gyllideb a gyflwynir i'r Cynulliad â'r hyn a ddefnyddir gan y Trysorlys ar gyfer rheoli gwariant cyhoeddus. Bydd angen i mi ystyried ymhellach yr amseru ar gyfer hyn yng nghyd-destun diwygio cyllidebol ehangach. Dylai canlyniadau'r ymarfer hwn arwain at symleiddio'r cynnig cyllidebol blynyddol presennol mewn perthynas â chysoni o fewn yr atodlenni atodol.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i ystyried y materion capasiti sy'n codi fel rhan o raglen Gweithredu Trysorlys Cymru. Mae peth capasiti ar gael ac rwy'n ystyried sut y gallai fod angen ei ehangu, gan gynnwys y posibilrwydd o rywfaint o fewnbwn annibynnol.

Rwy'n edrych ymlaen at adroddiad y Pwyllgor ar ail ran ei ymchwiliad ac at ein cydweithrediad parhaus.



**Jane Hutt AC / AM**  
Y Gweinidog Cyllid  
Minister for Finance

